## GWRANDAWIADAU APÊL DERBYN I YSGOLION

Pwrpas gwrandawiad apêl yw darparu fforwm annibynnol, diduedd ond anffurfiol i rieni ac i'r Awdurdod Derbyn (fel arfer yr Awdurdod Addysg Lleol) i gyflwyno eu hachosion pan fo rhiant yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Addysg Lleol i wrthod derbyn plentyn i'r ysgol y maent wedi ei dewis. Mae rheolau ynglŷn â phwy all wasanaethu ar Banelau apêl ac fe'u bwriadwyd i gadw annibyniaeth y Panel (e.e. ni allant fod yn gynghorwyr awdurdod lleol). Gall Llywodraethwyr ysgol eistedd ar banelau apêl fel aelodau lleyg neu fel rhieni plentyn sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol arall (os yw hynny'n berthnasol). Caiff gwrandawiadau apêl eu galw fel bo'r angen - fe all y bydd nifer mewn blwyddyn neu ddim o gwbl. Ni fydd unigolion sy'n mynegi diddordeb mewn gwasanaethu ar banelau apêl ac sydd hefyd yn llywodraethwyr ysgol yn cael eu galw i eistedd ar banel os mai'r ysgol y maent yn aelodau o'i chorff llywodraethu yw testun yr apêl na chwaith os yw eu hysgol yn debygol o gael ei heffeithio gan ganlyniad yr apêl h.y. y byddai'r plentyn yn cael cynnig lle yn yr ysgol fel dewis priodol arall. Rhaid i aelodau panelau apêl dderbyn hyfforddiant ar y broses apêl ac mewn gwrandawiadau apêl cant eu cyfarwyddo ar faterion gweithdrefnol gan Glerc y Panel sydd yn gyfreithiwr cymwysedig. Mae aelodau'r Panel yn gymwys i gael lwfansau ar gyfer colled ariannol, teithio a chynhaliaeth. Gallant hefyd dderbyn tâl am unrhyw enillion a gollir o ganlyniad i fynychu panel apêl.

### Beth fydd yn Digwydd yn y Gwrandawiad Apêl

Ceir panel o 3 neu 5 o bobl yn y gwrandawiad apêl.

- Bydd yr awdurdod derbyn (Awdurdod Addysg Lleol) yn egluro pam y cafodd y cais i dderbyn ei wrthod.

- Rhaid i'r panel apêl benderfynu fel mater o ffaith a fyddai derbyn y plentyn yn anfanteisiol i addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau yn yr ysgol dan sylw. Mater i'r Awdurdod Addysg Lleol yw profi mai dyna yw'r achos.

- Rhaid i'r panel apêl hefyd benderfynu a gafodd trefniadau derbyn/meini prawf yr awdurdod eu cymhwyso'n briodol a'u bod yn gyfreithlon yn ôl y Cod Derbyniadau Ysgol. Os ydynt yn gyfreithlon a'u bod wedi eu dilyn yn briodol, rhaid i'r panel benderfynu a gawsant eu dilyn yn deg ac yn drwyadl.

- Pe na bai'r meini prawf wedi eu dilyn yn briodol neu eu bod yn anghyfreithlon, rhaid i'r apêl gael ei chefnogi. Yn yr un modd pe bai'r panel yn penderfynu na fyddai rhagfarn yn codi pe bai'r plentyn yn cael ei dderbyn yna rhaid i'r apêl gael ei chefnogi.

- Os nad yw'r apêl wedi cael ei chadarnhau ar y seiliau uchod, yna gall y rhiant/rhieni roi eu rhesymau paham y dylai eu plentyn gael ei dderbyn. Bydd y panel yn penderfynu a yw rhesymau'r rhieni dros i'w plentyn gael ei dderbyn yn gorbwyso rhesymau'r awdurdod derbyn dros beidio â derbyn plentyn ychwanegol.

  (mae'r ystyriaethau ychydig yn wahanol pan fo achos yr Awdurdod Derbyn yn seiliedig ar gyfyngiadau o ran maint dosbarth babanod).

- Bydd penderfyniad y Panel yn derfynol o safbwynt y ddwy ochr a rhaid anfon y penderfyniad yn ysgrifenedig i'r rhieni ac i'r awdurdod derbyn mor fuan ag sy'n bosibl ac yn ddelfrydol, o fewn 5 diwrnod gwaith.